Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: Dydd Mawrth, 27 Mawrth 2007

Teitl: Addysg uwch i gael £424 miliwn yn y flwyddyn academaidd nesaf

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi datgan dyraniadau grant o fwy na £424 miliwn i addysg uwch yn 2007/08.

Y cynnydd cyfartalog ar gyfer dyraniadau cyllido fformiwla i sefydliadau addysg uwch – SAUau – ar eu grantiau 2006/07 yw 3.84% mewn termau arian. Y cynnydd mwyaf i SAU unigol yw 5.87%.

Yn y dyraniadau grant, mae'r datganiad yn cadarnhau:

- £3m ychwanegol tuag at talu costau economaidd llawn ymchwil a ariennir gan elusennau;
- cynnydd pellach o ryw 20% i'r Gronfa Trydedd Genhadaeth – sydd bellach wedi dyblu ei maint dros dair blynedd;
- cefnogaeth barhaol wrth dalu costau cyfraniadau cyflogwyr ychwanegol at Gronfa Pensiwn yr Athrawon, gyda'r cyllid hwn yn cael ei drosglwyddo i'r craidd dros y ddwy flynedd nesaf;
- ymrwymiad CCAUC i etholfreinio gweithgarwch trwy ei gadw'n flaenoriaeth y model cyllido; a
- chefnogaeth CCAUC i ddatblygu ymchwil trwy'r Gronfa Buddsoddiad Ymchwil.

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC, "Mae'r sector addysg uwch yn chwarae rôl hanfodol mewn datblygu Cymru fel economi wybodaeth. Am y rheswm hwn, mae'n dda iawn gennyf ein bod, unwaith eto, wedi cynyddu cefnogaeth ar gyfer creu cyfoeth a gwybodaeth ymhellach yn ogystal â datblygiad economaidd a chymdeithasol trwy gynnydd mewn cyllid ar gyfer ymchwil a gweithgarwch y drydedd genhadaeth. Yn ystod y flwyddyn sy'n dod, byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd y gallen ni dargedu cyllid yn ddetholiadol wrth gefnogi blaenoriaethau strategol."

Meddai'r Athro Syr Roger Williams, Cadeirydd y Cyngor: "Er bod y setliad hwn yn cynnig cyllid digonol am gynnydd bach mewn termau go iawn i'r sector cyfan, bydd rhaid i addysg uwch yng Nghymru barhau i weithio'n galed i gadw ei heffeithlonrwydd cystadleuol yn y DU a'r tu hwnt, yn arbennig yng ngoleuni setliadau cyllido mewn mannau eraill yn y DU.

"Fel sector sy'n creu incwm net, mae addysg uwch yn fuddsoddiad ardderchog cyllid cyhoeddus a byddwn yn parhau i bwyso am lefelau'r cyllid sy'n caniatáu i addysg uwch wneud cyfraniad llawn at sefydlu Cymru fel 'cenedl fach ond clyfar sy'n perfformio'n well na'r disgwyl."

Diwedd

Cysylltiadau

Am wybodaeth bellach, cysylltwch ag:
Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu

029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk

Nodiadau

Mae **manylion llawn** am ddyraniadau Cyngor grant cylchol y Cyngorar gyfer 2007/08 yn y Cylchlythyr **W07/12HE, *Recurrent Grant 2007/08.***

Mae'r dyraniadau grant ar gyfer 2007/08 o'u cymharu â 2006/07 i'w gweld yn **Atodiad A**. Mae **Atodiad B** yn cymharu dosraniad grant cyfan y Cyngor, cylchol a chyfalaf, y waelodlin ac uwch ben y waelodlin, am y flwyddyn academaidd 2007/08 ag un y flwyddyn academaidd 2006/07.

Cyd-destun Ymestyn yn Uwch

- Y dyraniadau yw'r pumed o dan y cytundeb a gyflwynwyd gan *Ymestyn yn Uwch,* strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Addysg Uwch, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2002. O dan y cytundeb, rhoddir cyllid uwchben y waelodlin ar yr amod bod SAUau yn dangos eu hymrwymiad at gydflaenoriaethau'r strategaeth - **ailgyflunio ac ehangu mynediad.**

- Bydd £17.7 miliwn o **gyllid uwchben y waelodlin** ar gael ar gyfer 2007/08, sy'n cynnwys cyfalaf Ymgeisio yn Uwch, y mae £2 filiwn ohono wedi'i neilltuo i gefnogi ehangu mynediad. Ar hyn o bryd clustnodir y gweddill i gefnogi ailgyfluniad a chydweithio yn y sector ond, ar ofyn y Gweinidog, mae CCAUC yn parhau i archwilio defnyddiau strategol y cyllid hwn ac mae wedi ymroi i ddyblu lefel y cyllid a ddyrennir i'w Gronfa Datblygu Strategol.

- Gwneir y setliad yng nghyd-destun amhosibilrwydd **rhagdybiaeth ar gyfer twf y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol nesaf** cyn yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr sydd ar ddod, er y lleddfwyd effaith hyn trwy **gynnydd o £6 miliwn** a gytunwyd gan Gynulliad Cymru yn Rhagfyr.

- Mae'r cynnydd pellach o ryw 20% i'r **Gronfa Trydedd Genhadaeth** – a sefydlwyd ym Mehefin 2004 i gefnogi'r gweithgareddau hyn – yn golygu bod y Gronfa bellach wedi dyblu dros dair blynedd.

- Dangosir cefnogaeth CCAUC ar gyfer datblygu ymchwil trwy'r **Gronfa Buddsoddiad Ymchwil.** Cyflwynwyd y Gronfa yn 2004/05 i SAUau ei defnyddio'n strategol, yn eu doethineb, er enghraifft, i ddatblygu ymchwil sy'n dod i'r amlwg, gwella meysydd ymchwil sydd eisoes yn gryf, neu ail-lunio'u portffolio ymchwil.

- Datganodd cyhoeddiad Addysg Uwch Cymru (AUC), *Adeiladu Cymdeithas Gyfle* ac *Economi Wybodaeth,* fod allgynnyrch economaidd uniongyrchol y sector addysg uwch yn arwyddocaol iawn yng Nghymru. Heb ystyried effaith cynnydd mewn lefelau sgiliau a throsglwyddiad gwybodaeth, dywedodd y **cyfrannodd y sector fwy nag £1.64 biliwn at economi Cymru yn 2004-05.**

- Nododd y ddogfen hefyd i'n **prifysgolion ennill o leiaf £114 miliwn yn 2004-05 o enillion allforio i Gymru.** Mae AU yn enillydd allforio allweddol, nid dim ond trwy ddenu cyllid ymchwil tramor a'r UE ond hefyd trwy ddenu miloedd o 'ddiwrnodau' twristiaeth yng Nghymru gan deuluoedd a ffrindiau'r 10,000 o fyfyrwyr rhyngwladol sydd yng Nghymru.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

Mae **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC) yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad sy'n gyfrifol am weinyddu cyllid y trefnir ei fod ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi:

- darpariaeth addysg sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymgymryd ag ymchwil gan SAau; a
- darpariaeth cyrsiau addysg uwch rhagnodedig mewn sefydliadau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon i athrawon ysgol a chomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion, dyheadau a phryderon cyllid y sector addysg uwch yng Nghymru.

Colegau Addysg Bellach

Mae CCAUC yn ariannu rhywfaint o ddarpariaeth addysg uwch oddi mewn i Golegau Addysg Bellach (CABau). Mae cyllid ar gyfer eu darpariaeth AU yn rhan fach iawn yn unig o incwm CABau. Prif gynheiliad cefnogaeth ariannol y sefydliadau hyn yw Adran Addysg Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru. Oherwydd hyn, nid yw CCAUC erioed wedi ceisio cymedroli canlyniad y cyllid (trwy ymgodi i Gynnyrch Mewnwladol Crynswth) i'r sefydliadau hyn o ran eu darpariaeth addysg uwch. Mae hyn yn golygu y gall cyllid ar gyfer darpariaeth addysg uwch mewn CABau amrywio'n sylweddol o ganlyniad i'w perfformiad yn nhermau niferoedd myfyrwyr.

ATODIAD A: CYMHARIAETH CYLLIDO 2006/07 A 2007/08

AU

Sefydliad	Dyraniadau 2006/07 (£)									Dyraniadau 2007/08 (£)										Canran
	Addysgu	YÔR (PGR)	YA (QR)	CBY (RIF)	Y Pen	Ehangu Mynediad	Cyfrwng Cymraeg	Anabledd	CYFANSWM	Addysgu	YÔR (PGR)	YA (QR)	CBY (RIF)	Y Pen	Ehangu Mynediad	Cyfrwng Cymraeg	Anabledd	Atodiad yn gysylltiedig â CMC	CYFANSWM (1)	Newid
Prifysgol Morgannwg	44,403,229	335,799	1,195,714	691,014	757,894	1,463,715	13,727	56,800	48,917,891	45,691,566	344,312	1,276,052	691,014	740,386	1,422,156	14,200	72,160		50,251,846	2.73%
Prifysgol Cymru, Aberystwyth	22,870,192	387,273	4,975,902	1,039,832	409,099	278,507	262,692	76,000	30,299,498	23,477,853	397,090	5,159,435	1,039,832	424,522	284,643	250,083	90,420		31,123,878	2.72%
Prifysgol Cymru, Bangor	21,104,011	549,670	7,716,792	464,695	326,342	274,182	502,046	74,400	31,012,138	21,665,223	563,604	8,268,248	464,695	346,837	278,443	514,274	88,440		32,189,764	3.80%
Prifysgol Caerdydd	62,673,206	2,860,178	37,076,756	49,696	961,127	574,459	6,016	78,400	104,279,837	65,269,712	2,932,684	40,471,195	49,696	963,425	588,844	7,062	114,400		110,397,018	5.87%
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	4,320,987	89,041	1,165,379	117,077	147,660	193,733	13,055	20,400	6,067,332	4,435,693	91,298	1,242,112	117,077	155,047	186,031	5,881	30,360		6,263,500	3.23%
Prifysgol Cymru Abertawe	25,814,438	903,774	7,265,862	1,231,388	456,325	581,553	21,798	55,400	36,330,539	26,498,082	926,685	7,535,128	1,231,388	464,957	531,241	18,842	76,120	14,488	37,296,931	2.66%
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	23,466,998	64,524	924,521	252,575	342,545	484,753	112,030	78,800	25,726,747	24,091,447	66,160	972,772	252,575	342,498	476,302	92,838	83,160	33,326	26,411,079	2.66%
Prifysgol Cymru, Casnewydd	16,752,480	30,461	327,172	93,260	384,817	771,909	30,005	44,400	18,434,505	17,198,105	31,233	338,904	93,260	417,921	826,657	14,187	56,980		18,977,248	2.94%
Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru	13,687,042			120,202	236,711	375,545	6,741	52,800	14,479,041	14,050,878	6,532		120,202	260,058	390,501	14,981	74,580		14,917,734	3.03%
Athrofa Addysg Uwch Abertawe	13,508,421	5,646		81,218	238,764	347,910		33,600	14,215,560	13,867,581	5,789		81,218	247,272	360,629	5,172	36,520		14,604,181	2.73%
Coleg y Drindod Caerfyrddin	4,825,372				90,658	100,321	361,022	9,800	5,387,174	4,953,859				93,056	107,130	432,194	10,120		5,596,360	3.88%
Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd			241,618						241,618			245,535							245,535	1.62%
Cyfanswm (1)	**253,426,377**	**5,226,366**	**60,889,715**	**4,140,959**	**4,351,942**	**5,446,589**	**1,329,132**	**580,800**	**335,391,880**	**261,200,000**	**5,365,387**	**65,509,381**	**4,140,959**	**4,455,980**	**5,452,578**	**1,369,716**	**733,260**	**47,814**	**348,275,074**	**3.84%**

AB

Sefydlaid	Dyraniadau 2006/07 (£)									AllocationsDyraniadau										Canran
	Addysgu	YÔR (PGR)	YA (QR)	CBY (RIF)	Y Pen	Ehangu Mynediad	Cyfrwng Cymraeg	Anabledd	CYFANSWM	Addysgu	YÔR (PGR)	YA (QR)	CBY (RIF)	Y Pen	Ehangu Mynediad	Cyfrwng Cymraeg	Anabledd	Atodiad yn gysylltiedig â CMC	CYFANSWM (1)	Newid
Coleg Pen-y-bont ar Ogwr	63,503				1,473	3,093			68,069	65,206				2,031	4,215				71,452	4.97%
Coleg Sir Gâr	1,018,759				14,730	18,060		21,200	1,072,749	1,045,749				9,324	9,675		20,020		1,084,769	1.12%
Coleg Llandrillo	1,144,550				18,167	25,721		800	1,189,238	1,175,059				38,266	60,515		1,100		1,274,940	7.21%
Coleg Menai	47,872				848	2,062	2,594		53,376	49,150				1,015	1,376	5,437			56,979	6.75%
Coleg Castell-nedd Port Talbot	107,065				1,964	4,515			113,544	109,945				46	215				110,206	-2.94%
Coleg Morgannwg	324,685				4,821	11,209			340,714	301,824				4,385	9,289				315,498	-7.40%
Coleg Abertawe	44,107				1,071	2,621			47,800	45,274				877	731				46,882	-1.92%
Cyfanswm (1)	**2,750,541**				**43,075**	**67,281**	**2,594**	**22,000**	**2,885,491**	**2,792,208**				**55,944**	**86,017**	**5,437**	**21,120**		**2,960,726**	**2.61%**

Cyfanswm AU ac AB (1)	**256,176,918**	**5,226,366**	**60,889,715**	**4,140,959**	**4,395,017**	**5,513,870**	**1,331,726**	**602,800**	**338,277,371**	**263,992,208**	**5,365,387**	**65,509,381**	**4,140,959**	**4,511,924**	**5,538,595**	**1,375,153**	**754,380**	**47,814**	**351,235,800**	**3.83%**

(1) Efallai na fydd y cyfansymiau yn union gywir oherwydd talgrynnu

GRANT CYNGOR CYLLIDO ADDYSG UWCH CYMRU **Atodiad B**

LLINELL SYLFAEN

RHEOLAIDD		**2006/07**	**2007/08**	**% Cynnydd**
GRANT AR GYFER ADDYSGU		**(£)**	**(£)**	
Prif Grant fformiwla		256,188,050	264,040,020	
Y pen		4,395,017	4,511,924	
Premiwm ehangu mynediad (1)		5,513,870	5,538,595	
Premiwm Cyfrwng Cymraeg		1,331,726	1,375,153	
Premiwm anableddau		602,800	754,380	
	CYFANSWM	**268,031,463**	**276,220,072**	
GRANTIAU CYSYLLTIEDIG AG ADDYSGU				
Ehangu mynediad		1,742,852	1,794,212	
Strategaethau addysgu a dysgu		2,176,355	2,434,246	
Cyfrwng Cymraeg (Cronfa, Uned a Chynlluniau Arbennig)		384,110	499,327	
Cynlluniau Arbennig HCA		70,000	6,000	
Strategaeth HCA		1,131,380	1,166,470	
Ad-daliad ffioedd ERASMUS		361,200	924,070	
Hepgoriad Ffi RhA		1,000,000	1,000,000	
Partneriaethau HCA		254,010	260,770	
Prifysgol Caerdydd - Ysgol Glinigol Gogledd Cymru		1,013,100	1,053,400	
	CYFANSWM	**8,133,007**	**9,138,495**	
Cynllun Pensiynau Athrawon		1,623,700	1,040,260	
GRANT YMCHWIL				
RAE Quality based grant (2)		60,889,715	65,509,381	
Cynlluniau - Cymru				
Cronfa Buddsoddi mewn Ymchwil		4,140,959	4,140,959	
Bwrdd Gwybodau Celtaidd PC		232,731	238,921	
Gwasg PC		123,329	126,609	
Cynlluniau - y DU				
Cynllun Grantiau Myfyrwyr Ymchwil Tramor (ORSAS)		356,000	375,898	
Rhwydwaith Llyfrgelloedd Ymchwil (RLN)		54,700	81,000	
	CYFANSWM	**65,797,434**	**70,472,768**	
GRANT AR GYFER HYFFORDDIANT MEWN YMCHWIL I ÔL-RADDEDIGION		**5,226,366**	**5,365,384**	
GRANTIAU NAD YDYNT YN RHAI PRIF FFRWD				
Caffael AU		34,500	30,500	
Cyd-bwyllgor Systemau Gwybodaeth (JISC)		2,285,000	2,645,000	
Atebolrwydd a Etifeddwyd		12,000	6,500	
Sefydliad Arweinyddiaeth		140,000	140,000	
Dyfarniadau Tâl Clinigol		1,300,000	1,300,000	
Gweithredu Adolygiad Ieithoedd Modern		75,000	25,000	
Uned Her Cydraddoldeb		45,750	46,967	
Addysg Uwch Gymreig ym Mrwsel		40,000	40,000	
Consortiwm Rhyngwladol Cymru (WIC)		66,950	66,950	
Costau Rheolaidd Fideo Gynadledda Cymru		103,000	150,000	
Yr Ymddiriedolaeth Carbon		20,000	20,000	
Cynlluniau Cydraddoldeb		50,000	50,000	
Gwasanaethau Anabledd		60,000	60,000	
Arolwg Hydredol o Gyrchfannau Ymadawyr		33,000	33,000	
Costau YAY		56,300	167,000	
Astudiaeth Graddiau Sylfaenol		80,000		
Treial Yr Ymddiriedolaeth Carbon		42,000		
Pynciau sydd o bwysigrwydd ehangach			375,000	
Gwerthusiad y Cynllun Anabledd			50,000	
Uned Rhyngwladol			25,000	
Swydd Cyfarwyddwr AUC		25,000		
Cronfa Datblygu Strategol (3)		4,000,000	4,000,000	
Astudiaethau a Chynlluniau Bychain		421,676	459,760	
	CYFANSWM	**8,890,176**	**9,690,677**	
CYLLID TRYDEDD GENHADAETH				
Y Gronfa Trydedd Genhadaeth		5,128,070	6,128,070	
GO Wales		2,535,000	1,735,000	
	CYFANSWM	**7,663,070**	**7,863,070**	
Atodiad nas cyfunwyd i sefydliadau penodol		24,669		
CYFANSWM RHEOLAIDD		**365,365,216**	**379,790,726**	**3.9%**
CYFALAF (dyraniad ar sail BlAr wedi ei throsi'n FlAc)				
Ymchwil		**10,762,000**	**10,762,000**	**0.0%**
Addysgu		**7,634,000**	**7,634,000**	**0.0%**
	CYFANSWM	**383,761,216**	**398,186,726**	**3.6%**
UWCH Y LLINELL SYLFAEN				
CYLLID STRATEGAETH AU LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (dyraniad ar sail BlAr wedi ei throsi'n FlAc)				
Ailgyflunio a Chydweithredu (dyraniad ar sail BlAr wedi ei throsi'n FlAc)		12,471,332	12,700,000	
Ehangu Mynediad		2,060,000	2,000,000	
Cyfalaf Ymgyrraedd yn Ehangach		2,000,000	3,000,000	
	CYFANSWM	**16,531,332**	**17,700,000**	
	CYFANSWM	**400,292,548**	**415,886,726**	**3.7%**
Cyllid PRIFYSGOL AGORED – trosglwyddiad o'r DfES		**7,671,000**	**7,874,000**	**2.6%**

(1) *Mae'n cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer y Premiwm Ehangu Mynediad – £800k yn ychwanegol yn 2005/06, a £2.5m yn 2006/07 a 2007/08*

(2) *Mae gwariant 07/08 yn cynnwys cyllid QR sylfaenol a £3 miliwn ychwanegol i gefnogi ymchwil gan elusennau*

(3) *Cafodd dyraniad 06/07 ei gynhyddu gan ddefnyddio arian wedi ei adfachu - o 07/08 bydd cynnydd hyd nes bydd y gronfa yn cyrraedd £6,000,000*